# PWYLLGOR SAFONAU WEDI’I AIL-YMGYNNULL

# DYDD IAU 4 AWST 2022

**PRESENNOL:** Mrs M. Dodd (Cadeirydd)

**Aelodau Annibynnol:**
Ms D. Evans, Mrs J. James

**Aelod Cymunedol:**
Cynghorydd Tref P. Rogers

**Cynghorwyr:**
G.B. Thomas

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cymerwr Cofnodion)

**Rhith-Gyfarfod : 2.05 yp - 2.50 yp**

[**Sylwer**: Oherwydd anawsterau technegol wrth ffrydio'r gweddarlllediad, wrth gael gwybod na fyddai trefn y materion o'r dechrau yn cael ei we-ddarlledu na'i fod ar gael i'r cyhoedd ei wylio, gofynnodd y Pwyllgor am gyngor cyfreithiol a chytunodd i fwrw ymlaen â threfn y materion fel y nodir ar yr agenda.]

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau Annibynnol C. Davies ac F. Phillips a'r Cynghorydd Sir B. W. Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**4. YSTYRIAETH GYCHWYNNOL O'R ADRODDIAD A GYHOEDDWYN GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU MEWN PERTHYNAS A'R CYNGHORYDD TERRY DAVIES**

**Ar ôl cynnal y prawf budd i'r cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 5 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ynddo byddai datgelu ar y cam cychwynnol hwn o broses dau gam yn anghymesur a byddai'n tarfu'n anfanteisiol ar fywyd preifat a bywyd teuluol y Cynghorydd dan sylw.**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a dderbyniwyd gan Swyddog Monitro'r Cyngor Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a nododd ganlyniadau'r ymchwiliad i honiadau bod y Cynghorydd Davies wedi torri côd ymddygiad yr aelodau.

Cynhaliodd aelodau, yn unol â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor, ystyriaeth gychwynnol o'r adroddiad ac yn seiliedig ar gynnwys adroddiad yr Ombwdsmon yn unig daeth i benderfyniad.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cynnwys tystiolaeth o doriad ac y dylai'r Cynghorydd Davies gael cyfle i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwiliad**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**